**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)
Ein cyf/Our ref: JH/PO/618/25

Peredur Owen Griffiths AS
Y Pwyllgor Cyllid

28 Tachwedd 2025

Annwyl Peredur,

**Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)**

Diolch am Adroddiad y Pwyllgor Cyllid a gyhoeddwyd ar 10 Tachwedd ynglŷn â Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) fel rhan o waith craffu cyfnod 1.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu a'i ystyriaeth yng nghyfnod 1.

Ochr yn ochr â'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, rwyf wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor yn ofalus, ac rwy'n falch o ddarllen yng nghasgliadau 1, 2 a 3 bod y Pwyllgor yn gyffredinol fodlon â goblygiadau ariannol a strategaeth gydweithredol y Bil hwn.

Gweler fy ymateb yn Atodiad 1 i'r gyfres o argymhellion cyn Trafodaeth Cyfnod 1 ar yr Egwyddorion Cyffredinol.

Yn gywir,

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) – Tachwedd 2025**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn gweithio gyda'r Ysgrifennydd Cabinet i ddadansoddi manteision costau'r Bil, ac yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o wybodaeth am y manteision hyn, gan gynnwys sut y cânt eu dadansoddi, a pha bryd y disgwylir iddynt gael eu cyflawni. |
| **Derbyn**<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani i'r Aelod sy'n gyfrifol ynghylch costau a manteision posibl y Bil, ynghyd ag unrhyw wybodaeth sydd ar gael i helpu i ddadansoddi'r manteision ac i nodi'r amserlenni cyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu manylion polisi yn ôl yr angen er mwyn i'r Aelod allu diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl gwaith craffu cyfnod 2 y Bil. |
| **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i egluro sut y bydd ei pholisïau presennol IAP, a'r polisïau sydd wedi'u cynllunio, yn rhyngweithio â darpariaethau'r Bil, er mwyn penderfynu a yw'r amcangyfrifon costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adlewyrchu gofynion ariannol ychwanegol yn fanwl gywir, neu a allai rhai costau eisoes fod wedi'u talu drwy ymrwymiadau presennol. |
| **Derbyn**<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu manylion y polisïau presennol ym maes IAP, a'r polisïau sydd wedi'u cynllunio, i'r Aelod sy'n gyfrifol. Bydd hyn yn cynnwys manylion Map Llwybrau IAP a fydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2026. Bydd hwn yn nodi camau gweithredu i gefnogi IAP yng Nghymru yn y deunaw mis ar ôl ei gyhoeddi. |
| **Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi rhagor o eglurder ynghylch y costau sy'n deillio o'r Bil i gyrff cyhoeddus rhestredig, yn enwedig mewn perthynas â gweithredu cynlluniau IAP. |
| **Derbyn mewn egwyddor**<br>Bydd y costau sy'n deillio o'r Bil i gyrff cyhoeddus rhestredig yn dibynnu ar gynnwys y strategaeth IAP genedlaethol ynghyd â'r canllawiau a fydd i'w datblygu gan Lywodraeth yn y dyfodol. Bydd y cyrff cyhoeddus rhestredig yn penderfynu ar gynnwys eu cynlluniau eu hunain mewn ymateb i'r canllawiau, a nhw fydd â'r ddealltwriaeth fwyaf o'u hanghenion eu hunain. Fodd bynnag, os bydd angen, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i'r Aelod sy'n gyfrifol a allai helpu wrth ystyried y costau posibl sy'n deillio o'r Bil i gyrff cyhoeddus rhestredig. |
| **Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o'r Bil, a'i fod yn cynnwys asesiad o gostau a manteision cyffredinol y Bil, ac a yw hyn yn bodloni'r costau disgwyliedig a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| **Derbyn**<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredol, a fydd yn cynnwys asesiad o'r costau a'r manteision. Bydd effaith gweithredu'r strategaeth IAP ynghyd â'r canllawiau yn cael ei monitro fel rhan o rôl y Cynghorydd IAP a'r panel cynorthwyol. |